Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Suzy Davies AC
Comisiynydd Cyllideb a Llywodraethu

4 Mehefin 2019

Annwyl Suzy

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Ysgrifennaf atoch ymhellach i'ch llythyr dyddiedig **9 Mai 2019** mewn cysylltiad â thrafodaeth y Pwyllgor Cyllid o'r **cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013**, y bu'r Pwyllgor yn eu trafod yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2019.

Hoffai'r Pwyllgor wahodd swyddogion Comisiwn y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni'r dyletswyddau a osodir ar y Cynulliad gan y Ddeddf i sesiwn dystiolaeth **ddydd Iau 11 Gorffennaf, 10.30-11.10**. I lywio'r sesiwn hon, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael cyflwyniad ysgrifenedig yn nodi:

- costau gweinyddol, cydymffurfio a chostau eraill o gyflawni'r swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru (a amlinellir **Rheol Sefydlog 18.10-18.11**),
- yr amserlenni ar gyfer y cyfryw gostau, ac
- unrhyw fyfyrdodau neu faterion a nodwyd o ran gweithredu'r Ddeddf hyd yn hyn (e.e. o ran y gyfundrefn ffioedd).

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 27 Mehefin 2019. Byddai'r tîm clercio yn hapus i gwrdd â swyddogion y Cynulliad i drafod y cyflwyniad ysgrifenedig y gofynnwyd amdano yn fanylach. Os bydd angen unrhyw eglurhad pellach arnoch, neu wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â: Georgina Owen, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6372, **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**.

Yn gywir

Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565